

SL(6)160 – Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Cymru) 2022

Cefndir a diben

Mae [Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth \(Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol\) \(Cymru\) 2022](#) ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud o dan y pŵer sydd wedi ei gynnwys yn Erthygl 25(b) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ("y Rheoliad CMO"), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5)(c)(i)(bb) o'r Rheoliad hwnnw. Maent yn gymwys yng Nghymru yn unig.

Mae'r cynllun llaeth i ysgolion domestig (yr UE yn flaenorol) yn darparu cymorth tuag at gost llaeth mewn ysgolion. Mae'r polisi ar laeth ysgol wedi'i ddatganoli, drwy'r cynllun ac yn cael ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig o dan gytundebau asiantaeth gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthyglau 4 a 9 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/39. Maent yn diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol sy'n ategu ceisiadau am gymorth o dan y cynllun a sefydlwyd gan Erthyglau 22 i 25 o'r Rheoliad CMO. O'r cychwyn, nodwyd bod y gofynion hyn am dystiolaeth ddogfennol yn anghymesur â'r risg y'u cynlluniwyd i fynd i'r afael ag ef. O'r herwydd, roedd y gofynion rheoli cyn 2017 yn berthnasol ledled y DU, a bwriedir i'r newidiadau presennol osod y cynllun hwn ar sail statudol.

O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, rhaid nad yw ymgeiswyr ond yn dal y dystiolaeth ddogfennol honno sydd ar gael i'r awdurdod perthnasol. Yn flaenorol, roedd rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ategol gyda'r cais am gymorth.

Bydd y Rheoliadau yn sicrhau dull cymesur o gadw dogfennau ar gyfer y rheini sy'n rhan o'r cynllun llaeth i ysgolion yng Nghymru. Bydd yn gofyn iddynt gadw dogfennau sy'n ategu unrhyw gais am gymorth a gyflwynir ganddynt, a threfnu bod y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio. Bydd y newid technegol hwn yn sicrhau y gall hapwiriadau barhau gyda sicrwydd cyfreithiol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan



fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

- 1. Rheol Sefydlog 21.2(vi)** – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd yn ei gwneud yn ofynnol fel a ganlyn:

There shall be open and transparent public consultation, directly or through representative bodies, during the preparation, evaluation and revision of food law, except where the urgency of the matter does not allow it.

Mae'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau o dan ystyriaeth yn nodi fel a ganlyn:

"Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002..."

At hynny, ailadroddir y geiriad hwn ym mharagraff 3.2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Fodd bynnag, nodir bod paragraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan fel a ganlyn:

"Gan nad oes newid mewn polisi, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Unig ddiben yr offeryn hwn yw rhoi sail cyfreithiol i'r trefniadau archwilio presennol. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu cyfyngedig gydag aelodau presennol o'r Cynllun Llaeth Ysgol yng Nghymru rhwng 28 Ionawr 2022 a 7 Chwefror 2022. Ni ddaeth sylwadau nac ymatebion gan gyfranogwyr yn ystod y broses ymgynghori."

Yn wyneb yr anghysondeb posibl hwn, gofynnir am eglurhad ynghylch y modd y mae'r camau a gymerwyd, fel y nodir ym mharagraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol, yn bodloni'r gofyniad statudol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus tryloyw (h.y. "transparent public consultation") fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9.

Rhinweddau: Craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol:



Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal "open and transparent public consultation, directly or through representative bodies, during the preparation, evaluation and revision of food law, except where the urgency of the matter does not allow it." Nid yw'n pennu ffurf ymgynghoriad o'r fath nac yn diffinio ystyr cyhoeddus ("public"). Fodd bynnag, mae yn ei gwneud yn glir y caniateir ymgynghori â'r cyhoedd yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioliadol, felly nid oes angen ymgynghori â'r cyhoedd yn gyffredinol ym mhob achos. Rydym o'r farn, felly, fod Erthygl 9 yn ei gwneud yn ofynnol penderfynu ar y dull mwyaf effeithiol a chymesur o sicrhau ymgynghoriad agored a thryloyw ym mhob achos.

Wrth benderfynu pa fath o ymgynghoriad sy'n angenrheidiol, credwn ei bod yn bwysig cofio cwmplas Rheoliad (EC) Rhif 178/2002, fel y'i nodir yn Erthygl 1, paragraff 2: "...this Regulation lays down the general principles governing food and feed in general, and food and feed safety in particular. It lays down procedures for matters with a direct or indirect impact on food and feed safety." Pan ddarllenir hyn gyda'r darpariaethau sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol hynny, megis Erthygl 9, rydym o'r farn y gall fod angen math gwahanol o ymgynghoriad weithiau ar gyfer mesurau sy'n cael mwy o effaith ar fwyd, ac yn arbennig ar ddiogelwch bwyd, o gymharu â'r rheini sy'n ymwneud yn anuniongyrchol â bwyd ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar ddiogelwch bwyd. Bydd y math o ymgynghoriad y mae ei angen bob amser yn seiliedig ar y ffeithiau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newid technegol i'r trefniadau gweinyddol sy'n ofynnol gan bersonau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Llaeth Ysgol. Nid yw'r trefniadau hynny yn cael unrhyw effaith ar y llaeth a gyflenwir nac unrhyw effaith ar ddiogelwch bwyd. Diben y Rheoliadau hyn yw galluogi'r Cynllun i barhau i weithredu fel y mae wedi gwneud dros y blynyddoedd diwethaf, ac ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo newid y ffordd y maent yn gweithredu ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol iawn y byddai gan unrhyw berson nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Cynllun Llaeth Ysgol unrhyw ddi-ddordeb yn y mater.

O ystyried natur hynod arbenigol a thechnegol y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, rydym o'r farn na fyddai ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd yn gyffredinol wedi bod yn ffordd effeithiol na chymesur o ddwyn y newid i sylw'r aelodau hynny o'r cyhoedd y mae'n debygol o effeithio arnynt, a gellid dadlau y byddai wedi bod yn llai agored a thryloyw nag ymgynghori'n uniongyrchol. Yn hytrach, gwnaethom ymgynghori â'r rhai perthnasol yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y Cynllun a'u cyrff cynrychioliadol, sef:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol;
- pob ysgol ac awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y Cynllun.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cyd â'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, sy'n gweinyddu'r Cynllun ar ran Llywodraeth Cymru. Ni chododd yr un o'r ymgynghoreion unrhyw faterion.



Rydym o'r farn mai dyna oedd y ffordd fwyaf tryloyw o sicrhau bod y mater yn cael ei ddwyn i sylw'r rhan o'r cyhoedd y gallai fod yn berthnasol iddi.

Nodwn fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio dull tebyg o ymgynghori wrth wneud Rheoliadau Ceisiadau am Gymorth Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Disgyblion mewn Sefydliadau Addysgol) (Lloegr a'r Alban) 2022, sy'n gwneud yr un diwygiadau yn union mewn cysylltiad â Lloegr a'r Alban.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee